Chwefror 17eg 2019

Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma a diolch i Lowri a Dafydd Roberts am gymryd gofal o'r gwasanaeth, ac i Sian am gyfeilio. Bydd te a choffi ac arwerthiant teisennau wedi'r oedfa – er budd Apêl Madagascar.

Yr Wythnosau Nesaf
Chwefror 24ain Parchg Gethin Rhys gydag Eluned Davies Scott ag Eleri yn cyfeilio
Mawrth 3ydd – Oedfa'r Pentrefi gyda Phentre'r Eglwys a Thonteg gyda Sian yn cyfeilio
Mawrth 10fed – Emlyn Davies gyda Carol Williams, gyda Rhiannon yn cyfeilio
Mawrth 17eg – Sul Teuluol gyda Wendy, Huw a Beth, gyda Sian yn cyfeilio
Mawrth 24ain – Y Parchg. Gethin Rhys, gyda Wyn Jones a Bethan yn cyfeilio

Merched y Tabernacl
Dydd Mercher 6 Mawrth 12.30 pm ar gyfer 1.00 pm
Cinio i Ddathlu Dydd Gwyl Ddewi yng Ngwesty'r Bear, Bontfaen
Enwau os gwelwch yn dda i Beti Treharne

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan: carolinerees2@hotmail.com

Undeb yr Annibynwyr – Cyfundeb Dwyrain Morgannwg
Eglwysi Dementia-Gyfeillgar
Siaradwyr:
Beti George a'r Dr. Zoe Morris Williams
7 o'r gloch
Nos Iau 21ain Chwefror 2019
Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth
Estynnir croeso cynnes i bawb

ELUSENNAU 2019
Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU
Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf Bwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth 19 Chwefror. Os oes gan unrhyw un fater i'w godi neu adroddiad i'w gyflwyno cysylltwch gyda Gwilym (01970 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk) erbyn dydd Llun 18 Chwefror.

APÊL MADAGASCAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Fe roddodd yr Ysgol Sul a'r Twmiaid ddechrau anrhydeddus i'n hymgyrch ni drwy godi dros £500 yn eu Swper Cynhaeaf, ac mae'r casgliad yn tyfu'n raddol. Mae gyda ni tan mis Mehefin i gyrraedd ein nod o £5,000. Cofiwch am yr amlenni bach gwyn gydag "Apêl Madagascar" arnyn nhw. Gobaith yr Annibynwyr Cymraeg ydy codi £200,000 i gefnogi pedair elusen sy'n gweithio gyda'r tlawd a'r anghenus ym Madagascar, un o bedair gwlad dlotaf y byd.

Dyfyniad yr Wythnos

Nid nôd Cristnogaeth yw dianc rhag y byd hwn. Ei nôd yw caru'r byd a cheisio ei newid er gwell..... mae iachawdwriaeth yn fwy i wneud â'r byd hwn na'r byd nesaf. **Marcus Borg, Diwinydd 1942-2015**

CYNHADLEDD WANWYN CRISTNOGAETH 21

Ar 29 a 30 Mawrth yn Aberystwyth ar y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf Williams, Huw Williams a Gareth Wyn Jones. Mae'r manylion llawn ar ein gwefan:
http://cristnogaeth21.cymru/newyddion

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:
'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

RIFIW Y DWRLYN NOS IAU AM 8.00 - Golwg ar 2018 drwy sgets a chân Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

CYNGERDD

Côr Pendyrus gyda Chantorion Richard Williams, Callum Howells a Samuel Morris yng Nghapel y Bedyddwyr Pontyclun ar 1af o Fawrth am 7.00 £10 y tocyn (oddi wrth Barrie Edwards 07788881136

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer arall ar wefan y capel: www.tabernacl.org